

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Medi 29 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday September 29 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth W Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), T Gwynn Jones, Meg Roberts, Helen Hughes, Gareth Owen

Cynghorwyr Sirol/County Councillors: Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled M Jones

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation)

Ymddiheuriadau/Apologies: Marilyn Hughes (Clerc/Clerk), Myrddin Owens, Wayne Jones, Val Roberts, Mike Roberts, Nige Ault, Miriam Sanders, Gordon Warren Cyng/Cllr Richard Jones

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE. Esboniwyd y byddai cynrychiolwyr o gynghorau cymuned gogledd Môn ynghyd a Mr Gareth Griffiths Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru yn ymuno a'r aelodau ar gyfer trafodaeth eitem 8.

Mae Carli Evans-Thau wedi ei phenodi yn glerc dros dro tra bod Marilyn Hughes i ffwrdd o'i gwaith ac fe'i croesawyd i'r cyfarfod.

Nodwyd bod Nige Ault wedi colli ei dad yn ddiweddar ac fe gafwyd munud o ddistawrwydd er cof. Mae llythyr o gydymdeimlad ar ran y Cyngor eisoes wedi ei anfon.

The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE. He explained that representatives from north Anglesey community councils along with Mr Gareth Griffiths Senior Training and Development Officer North Wales Fire service will be joining the meeting for discussion on item 8.

Carli Evans-Thau was welcomed to the meeting; she has been appointed temporary clerk whilst Marilyn Hughes is away.

It was noted that Nige Ault has recently lost his father, and members gave a minute silence as a mark of respect. A letter of condolence has already been sent on behalf of the Council.

2 Datgan diddordeb/Declaration of interest

Cyng/Cllr Wil Hughes - Cynllunio Planning

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir./The minutes were confirmed a true record.

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Pwynt 7 - mae pethau'n dechrau symud erbyn hyn.
Point 7 – there is now some movement.

4.2 Les adeilad cadlanciau – wedi ei gwblhau.
Cadets building lease – now completed.

4.3 Taliadau – Pwyllgor Cyllid yn derbyn y cyfrifoldebau.
Payments – Finance Committee accept the responsibilities.

5 Pwyllgorau allanol/External meetings

Nodwyd bod aelodau'r Cyngor wedi cyfarfod a chynrychiolwyr y Banc Bwyd a bydd cyfarfod eto yn y dyfodol agos.

It was noted that Council members had met with representatives of the Food Bank and that another meeting is scheduled.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cafwyd crynodeb o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd nos Lun Medi 21. Cadarnhawyd bod Myrddin W Owens wedi ei ethol yn gadeirydd y Pwyllgor. Nodwyd bod yr adroddiad cyllid ar ffurf newydd ac ar gael yn y swyddfa os oedd unrhyw un am ei weld. Cymeradwywyd nifer o daliadau a derbyniwyd tystysgrif archwiliad 2014/15 yn ôl gan yr archwiliwr allanol.

Daw nifer o argymhellion gan y Pwyllgor –

- Dylai'r Pwyllgor Cyllid hefyd fod yn gyfrifol am Gyflogaeth – pawb yn hapus.
- Dylid talu o leiaf cyflog byw (living wage) i weithwyr y Cyngor – pawb yn hapus.
- Cyflwynwyd newidiadau i oriau gwaith aelodau staff (manyllion llawn yng nghofnodion y Pwyllgor) – pawb yn hapus.
- Bydd nifer o daliadau uniongyrchol o hyn allan. Bydd hyn yn lleihau ar waith gweinyddol ac o fudd wrth gyllido taliadau misol – pawb yn hapus.

Nodwyd bod gofyn i gael gosod mesurydd trydan yn y toiledau. Mae angen cael pris am y gwaith.

Trafodwyd oriau gwaith glanhawr toiledau gan y cyngor llawn a chytuno ar dorriad o 3.5 awr yr wythnos. Cytuno hefyd lleihau oriau gwaith manau agored dros gyfnod y gaeaf. Torriad o 16 awr yr wythnos dros misoedd y gaeaf a chynyddu eto i 24 awr yr wythnos dros yr haf.

A summary of the Committee meeting held on Monday September 21st was given. It was confirmed that Myrddin W Owens was elected as chair of the Committee. It was noted that the financial report is now in a different format and is available in the office should anyone wish to see it. A number of payments were approved and the audit certificate for 2014/15 has been returned from the external auditor.

A number of recommendations were presented –

- *The Finance Committee should also be responsible for Personnel – agreed.*
- *The Council should pay its employees at least the living wage – agreed*
- *Changes to staff working hours proposed (full details in Committee minutes) – agreed*
- *A number of regular payments made by direct debit from now on. This will reduce the administrative workload and will help budgeting monthly payments – agreed.*

It has been requested that an electricity meter be installed in the toilets. There is a need to first get a quote for the work.

Working hours for the cleaning of the toilets was discussed by the full council and a reduction of 3.5 hours a week agreed. It was also agreed to reduce the working hours for open spaces over the winter months. A reduction of 16 hours over the winter months, increasing back to 24 hours over the summer.

7 Cynllunio/Planning

7.1 Penderfyniadau/Decisions

Heathcliffe, Amlwch (11C628) – Caniatad/Granted
Marinus, Bull Bay (11C509C) – Caniatad/Granted
2 Llain Wen, Amlwch (11C629) – Caniatad/Granted

Unit 6 Llwyn Onn (11C630) – Caniatad/*Granted*
Rehau Plastics (11C39A/1/VAR) – Caniatad/*Granted*
Unit 16 Amlwch Business Park (11C498A) – Caniatad/*Granted*
Nat West Bank, Mona Street (11C192C/AD) – Caniatad/*Granted*

7.2 Ceisiadau/Applications

Roedd dau gais i'w trafod/*There were two applications to discuss* –

- Cae Rheinws, Pen y Bonc (11C631) – dim gwrthwynebiad/*no objection*
- Ysgol Syr Thomas Jones (11LPA101K/1/LB) - dim gwrthwynebiad/*no objection*

9 **Gohebiaeth/Correspondence**

Dim gohebiaeth/*No correspondence*.

10 **Unrhyw fater arall/Any other business**

10.1 Garej Glanrhos Garage

Daw Cyng Wil Hughes a'r broblem at sylw'r Cyngor. Deallwyd bod y Cyngor Sir yn arwain ar y mater ac yn cymryd camau cyfreithiol ar hyn o bryd. Deallwyd bod nifer o asiantaethau allanol yn ymwybodol o'r broblem a bod y perchennog wedi cael dyddiad terfynol er mwyn symud ei eiddo ond nid oes symudiad hyd yma. Bydd rhaid disgwyl nes diwedd yr 14 diwrnod cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Fe ofynnwyd a oedd posib i'r Cyngor Sir ail agor y briffordd ger tai'r pensiynwyr ar Lon Wesle (tynnu wal i lawr). Byddai hyn efallai yn lleihau'r broblem parcio.

Cllr Wil Hughes brought the issue to the attention of the Council. It is understood that the County Council are leading on the matter and are currently taking legal action. It was understood that a number of external agencies are aware of the situation and that the owner has been given a deadline to which he must remove his property; there is no movement as yet. No further action can be taken until the 14 day period has passed.

It was asked whether it would be possible for the County Council to re-open the public highway by the pensioners' bungalows (removal of a wall). This would possibly alleviate part of the parking issue.

10.2 Cyngor Sir / County Council

Cafwyd wybod gan Cyng Aled M Jones bod y Cyngor Sir ar hyn o bryd yn adolygu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac yn edrych ar wahanol opsiynau i sicrhau gwerth arian i bobl yr ynys.

Cllr Aled M Jones stated that the County Council are at present reviewing the budget for the next financial year and looking at different options to ensure value for money for the island's residents.

11 **Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Hydref 27, 2015.

The next meeting will take place on Tuesday October 27, 2015

8 **Gwasanaeth Tan/Fire Service**

Croesawyd Mr Gareth W Griffiths, Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru ynghyd a Gwilym Morris (Rhosybol), Derek Owen (Llanbadrig), Dei Owens (Llanbadrig) a Dafydd Griffiths (Llaneilian). Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.

Cafwyd yn gyntaf crynodeb gan Mr Gareth Griffiths o'i gefndir a'i brofiad o weithio gyda'r gwasanaeth tan. Aeth ymlaen i gyflwyno prif benawdau'r ddogfen ymgynghori sydd yn edrych ar bedwar gwahanol amcan. Gobeithir bydd pob cyngor cymuned gogledd Cymru yn ymateb i'r ddogfen cyn mis Rhagfyr.

Amcan 1 - Parhau i gefnogi a chynorthwyo pobl i'w diogelu eu hunain rhag tan yn y cartref. Mae'n debyg mai atal tan yw'r ffordd gorau i ddiogelu pobl gyda gostyngiad o hyd at 50% o alwadau dros gyfnod o 10 mlynedd.

Amcan 2 - Lleihau'r nifer o bobl sydd wedi eu cyflogi gan y gwasanaeth ar bob lefel h.y. lleihau'r nifer o uwch swyddogion, swyddogion a diffoddwyr tan er mwyn cadw'r gwasanaeth yn effeithiol a gwariant o fewn yr arian sydd ar gael (£1 y person ar gyfartaledd ar draws gogledd Cymru). Bydd hyn yn golygu na fydd pwysau ariannol ychwanegol ar y cynghorau sirol.

Amcan 3 - Gwella sut mae adnoddau yn cael eu rhannu a'u dosbarthu. Ar hyn o bryd mae 44 gorsaf a 54 peiriant yng ngogledd Cymru. Mae 8 ohonynt yn gweithio llawn amser (1 ar yr ynys), gyda'r gweddill wedi eu staffio rhan amser yn ddibynnol ar risg ac argaeledd y diffoddwyr.

Nodwyd bod natur gwaith y gymuned yn gyffredinol wedi newid ac nad yw busnesau a chwmnïau yn barod i ryddhau diffoddwyr tan o'u gwaith fel yn y gorffennol. Mae felly angen edrych ar yr adnoddau sydd ar gael a sut mae staffio gorsafodded yn fwy effeithiol. Deallwyd bod gorsaf Amlwch 'ar gael' 80% o'r flwyddyn a hynny dros nos a phan mae risg ar ei uchaf.

Deallwyd nad oedd recriwtio ar hyn o bryd (am swyddi rhan amser) mor llwyddiannus a gobeithir, gyda nifer o'r rheini oedd yn ceisio am y swyddi yn cael eu gwrthod gan nad oedd ganddynt y sgiliau rhifedd a llythrennedd angenrheidiol.

Amcan 4 - Edrych ar opsiynau i arallgyfeirio'r gwasanaeth tan wrth gydweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans, gwasanaethau megis Gofal Môn ayyb

Cwestiynau

Diolchwyd i Mr Gareth Griffiths am y wybodaeth ac fe wahoddwyd cwestiynau gan y cynghorwyr oedd yn bresennol.

Cafwyd wybod nad oedd problemau recriwtio ar gyfer swyddi llawn amser, ond o ystyried natur y swydd bod angen am fwy o ddiffoddwyr rhan amser er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ar gael pan mae ei angen fwyaf.

Deallwyd bod posib i ddiffoddwyr tan llawn amser gael oriau ychwanegol ond nad oedd posib cyfyngu'r rhain i orsaf benodol ar hyn o bryd. Byddai angen cytundeb gyda'r undebau i wneud hynny.

Cadarnhawyd bod gan y gwasanaeth tan aelodau staff penodol yn gweithio gyda datblygwyr Wylfa Newydd er mwyn sicrhau bod oblygiadau'r datblygwyr yn cael eu cyrraedd (adeiladu, adeiladau newydd, twf poblogaeth, gofyn ar wasanaethau ayyb). Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio ar y dechrau wrth gynllunio gwasanaethau ac anghenion. Cytuno bod angen i unrhyw arian ychwanegol sydd ar gael gan Horizon i ddatblygu a chynnal gwasanaeth tan yr ardal yn cael ei glustnodi a'i wario ym Môn, ac o bosib yng ngogledd Môn.

Gofynnwyd a oedd gwasanaeth tan ar gael o orsaf Amlwch yn ystod y dydd ynteu dim ond ar benwythnosau a gyda'r nos. Roedd hyn yn ddibynnol ar lefelau staffio. Mae angen pedwar diffoddwr mewn tîm cyn gall y peiriant adael yr orsaf. Os nad oes ond un ar gael yn Amlwch, a thri ym Menllech yna bydd yr un o Amlwch yn ymuno a thîm Benllech.

Cydnabyddwyd bod natur lleoliad Amlwch yn wahanol i ardaloedd eraill megis Llangefni ac ardaloedd o Gonwy ac fe bwysleisiwyd eto'r pwysigrwydd o gadw unrhyw arian a geir gan Horizon a'i wario ar adnoddau yn yr ardal gyfagos.

Bwriedir parhau a'r nifer o orsafodded tan ar draws yr ardal wrth gydnabod eu bod wedi eu lleoli mewn mannau priodol. Teimlai'r gwasanaeth tan ei bod yn bwysig cadw'r adnoddau a'r offer yn eu lle a bod yn fwy hyblyg gyda staffio fel bod angen yn codi.

Mae 9 diffoddwr tan yn Amlwch ar hyn o bryd. Bydd rhaglen recriwtio yn cymryd lle yn fuan yn y flwyddyn newydd ac fe fydd Amlwch yn un o'r ardaloedd fydd yn cael blaenoriaeth. Deallwyd bod dau berson lleol eisoes a diddordeb mewn ymuno a'r gwasanaeth.

Fe ofynnwyd a oedd y lefelau llythrennedd a rhifedd oedd yn ofynnol yn rhy uchel, byddai rhai unigolion yn gwneud aelodau da o'r tîm ond efallai nad oedd eu sgiliau ysgrifenedig yn ddigonol. Cytuno bod posib cynnig hyfforddiant sylfaenol unai cyn cyfweiliad a/neu fel rhan o'r broses.

Esboniwyd bod sgiliau llythrennedd yn angenrheidiol wrth ystyried natur y swydd. Fe gynigwyd defnydd adnoddau hyfforddiant canolfan Hyfforddiant Parys at ddefnydd y fath gyrsiau magu hyder.

Roedd pryder bod cefnogi'r gwasanaeth ambiwlans yn amharu ar eu ffigyrau ymateb. Nodwyd bod y gwasanaeth tan wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf ar brosiectau atal tan ac felly bod modd weithiau defnyddio a rhannu adnoddau ble bod unigolion angen cefnogaeth a chymorth cyntaf nes bod posib anfon ambiwlans atynt. Mae angen bod yn hyblyg gydag adnoddau a phrofiad.

Roedd Cyng Wil Hughes yn ddiolchgar iawn am waith safonol y gwasanaeth tan ond yn bryderus iawn am leoliad Amlwch a chymunedau eraill gogledd Môn o'u cymharu â Llangefni er enghraifft. Cafwyd enghraifft o alwad diweddar a'r pwysigrwydd o gael aelodau lleol ar griw peiriant dan, aelodau gyda gwybodaeth am, ac yn adnabod, yr ardal leol. Mae hyn yn bryder mawr, a'r teimlad yn y gymuned yw bydd rhywun yn colli eu bywyd o'r herwydd.

Fe ategwyd y pryderon gan Cyng Aled M Jones wrth ddatgan bydd Wylfa Newydd y safle adeiladu mwyaf yn Ewrop. Bydd y pwysau ychwanegol ar y gymuned a'r gwasanaethau yn enfawr. Bydd yn hanfodol bod unrhyw arian a geir gan y datblygwyr a'r cwmnïau adeiladu yn cael ei wario'n ddoeth ar adnoddau i'r ardal leol. Fe gadarnhodd Mr Gareth Griffiths bod trafodaethau yn cymryd lle ar hyn o bryd, a bod cydweithio gyda gwasanaethau eraill ledled Prydain wrth ddilyn y broses cynllunio a ddefnyddiwyd yn Hinckley Point.

Camau Nesaf

Ar ôl peth trafodaeth, cytuno bod angen ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor Sir (Deilydd Portffolio Wylfa Newydd) i gefnogi'r gwasanaeth tan yn ardal gogledd Môn a phwysleisio ar yr angen a'r pwysigrwydd o wario unrhyw arian ar welliannau ac adnoddau yn yr ardal lol er mwyn diogelu bywydau. Bydd copïau i'w anfon at y tri cynghorydd lleol hefyd. Mae'n bwysig bod trafodaethau yn digwydd a chytundebau yn eu lle cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Deallwyd mai Cyng. Richard Jones yw cynrychiolwr y Cyngor Sir ar fwrdd y Gwasanaeth Tan. Yn anffodus, mae'r cynghorydd yn methu bopd yn bresennol heno.

Mae posib i'r gwasanaeth tan ymweld ag unrhyw dy i gwblhau asesiad risg diogelwch tan. Fe gytunodd Mr Gareth Griffiths y byddai yn cysylltu â'r swyddog ardal er mwyn gweld faint o dai yn yr ardal sydd eisoes wedi cael asesiad, a threfnu bod pamffledi ar gael i'w dosbarthu er mwyn hysbysebu'r gwasanaeth. Bydd angen i drigolion gysylltu yn uniongyrchol i drefnu asesiad. Mae'r asesiadau eisoes yn rhan o gytundeb tenantiaeth Mon.

Bydd angen edrych ar sut i fagu hyder ym mhobol leol er mwyn ceisio am y swyddi fydd ar gael yn fuan (cytundebau 21 awr). Bydd angen byw a/neu weithio o fewn 4 munud o'r orsaf dan. Bydd hefyd angen bod yn 18 mlwydd oed; bydd asesiadau ffitrwydd yn ogystal â sgiliau sylfaenol.

Diolchwyd i Mr Gareth Griffiths am ei amser i ddod i'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau'r aelodau

Mr Gareth W Griffiths, Senior Training and Development Officer for North Wales Fire Service, along with Gwilym Morris (Rhosybol), Derek Owen (Llanbadrig), Dei Owens (Llanbadrig) and Dafydd Griffiths (Llaneilian) were welcomed to the meeting and thanked for their attendance.

Firstly Mr Gareth Griffiths gave an overview of his background and experience of working with the fire service. He then gave a short presentation on the main headings of the consultation document looking at four objectives for the future. It is hoped that each community council throughout north Wales will respond to the document by December.

Objective 1 – *Continue to support and help people to safeguard themselves against fire in the home. Prevention is seen as the best method of safeguarding people with a reduction of up to 50% in the number of calls over a ten year period.*

Objective 2 – *Reduce the number of people employed by the service at each level i.e. senior officers, officers and fire fighters in order to ensure an effective service within the available budget*

(£1 per person on average throughout north Wales). This will ensure that no additional financial pressure is put upon the local authorities.

Objective 3 – Improve how resources are shared and distributed. At present there are 44 stations and 54 engines throughout north Wales. 8 are manned full time (1 on the island), with the others manned part time dependent on risk and availability of firefighters.

It was noted that the nature of employment within the community in general has changed and that businesses and organisations are no longer willing to release firefighters as in the past. There is therefore a need to look at the available resources and how best to staff stations most effectively. It was understood that the Amlwch station was 'available' for 80% of the year, normally overnight and at weekends when the risk was deemed to be at its highest.

It was understood that recruitment at present (for part time posts) was not as successful as had hoped, and that a number of applicants were being turned away due to lack of essential basic literacy and numeracy skills.

Objective 4 – Look at options to diversity the fire service by working closely with the ambulance service and other services such as Gofal Mon etc.

Questions

Mr Gareth Griffiths was thanked for the information and questions were invited from the councillors present.

The meeting was informed that there are no issues with regard to recruiting for full time posts, but considering that nature of the service there is a need for more part time firefighters to ensure that the service is available when needed most.

It was understood that is it possible for full time firefighters to work additional hours, but it was not possible to restrict these to specific stations at present - There would need to be further discussions and an agreement with the unions for this to happen.

It was confirmed that the fire service have designated staff members working with Wylfa Newydd developers in order to ensure that the developer's obligations are met (building, new structures, population growth, pressure on services etc). The importance of cooperation at the start of the project to design and develop the services in response to needs was emphasised. It was agreed that any additional funding available from Horizon to develop and sustain the fire service in the area is to be allocated and spent on Anglesey, if possible in North Anglesey.

It was asked whether Amlwch fire station operated during the day or only over night and at weekends. This was dependent on staffing levels. Four firefighters are needed on any crew in order for the engine to leave the station. If only one is available at Amlwch and three in Benllech then Amlwch personnel would move to Benllech and vice versa.

The difference in Amlwch's location compared with other, more central, stations was acknowledged. It was once again emphasised that any additional funding made available to the fire service by Horizon should be spent accordingly in the local community.

The fire service aim to continue with the number of stations across the catchment area, acknowledging their locations are of benefit to the service offered. It was felt that it was important to keep resources locally and be more flexible with the availability of staff members dependent on need.

There are at present 9 firefighters in Amlwch. A recruitment drive will take place early in the new year and Amlwch will be a priority area. It was understood that at least two people have already shown an interest.

It was suggested that the level of literacy and numeracy deemed essential was possibly too high, some members of the community would make great team members but their literacy skills may let them down. It was agreed that it would be possible to offer basic skills training either as part of the

interview and/or as part of the recruitment process. It was explained that due to the nature of the job, literacy skills were essential. The use of training facilities at Hyfforddiant Parys Training was offered free of charge for the purpose of delivering such training.

There were concerns that supporting the ambulance service would jeopardise their response times. It was noted that the fire service has worked hard over the years on prevention projects and that there was now a possibility of sharing resources where individuals require support and first aid until an ambulance can be deployed. There is a need to be flexible with experience and resources.

Cllr Wil Hughes was very grateful to the service for their high standard of work, but very concerned about the location of Amlwch and other remote communities in north Anglesey in comparison to other towns e.g. Llangefni that is more central. He gave an example of a recent call out and the importance of having local crew members on the engines, members with information about, and know the local area. This is of great concern and the feeling in the community is that someone will lose their life as a result.

The concerns were supported by Cllr Aled M Jones, stating that Wylfa Newydd will be the biggest building site in the EU. There will be additional pressures on the communities and on services. It is essential that any funding made available by developers is allocated wisely to support local resources in the local area. Mr Gareth Griffiths confirmed that discussions are currently taking place, working together with organisations UK wide and following the planning process used at Hinckley Point.

Next Steps

After some discussion it was agreed to write to the Leader of the County Council (Wylfa Newydd Portfolio Holder) to support the fire service in north Anglesey and emphasise the importance of allocating any funding made available on resources in the local area to safeguard lives. Copies of the letter will also be sent to the three local County Councillors. It is important that discussions take place now and that agreements are in place before the building work begins.

It was understood that Cllr Richard Jones is the County Council representative on the Fire Service Board. He is unfortunately unable to attend this evening.

It is possible for the fire service to visit any house to complete a fire risk assessment. Mr Gareth Griffiths agreed to contact the local officer to see how many homes in the area have already benefitted, and arrange that leaflets are made available to distribute to promote the service. Local residents will need to contact the fire service directly to arrange a visit. The assessment is already part of the IACC tenancy agreement.

There is a need to look at how to boost confidence and skills in local people to support them to apply for the positions that will be available soon (21hr contracts). There is a need to live and/or work within 4 minutes of the fire station. There is also a need to be a minimum of 18 years old; fitness will be assessed along with basic skills.

Mr Gareth Griffiths was thanked for attending the meeting and for answering the members' questions.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.45 / The meeting closed at 20.45.

CET09/2015